



## Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

**Noson Agored** – cofiwch fod yna gyfle i chi drafod datblygiad addysgol a chymdeithasol eich plentyn gyda'r athro / athrawes ar nos Lun, Ebrill 4ydd neu nos Fawrth, Ebrill 5ed. Anfonwyd y drefn ar gyfer gwneud apwyntiad atoch dros e-bost bythefnos yn ôl, ac mae'r ddolen bellach wedi gorffen. Os nad ydych wedi gwneud apwyntiad eto bydd angen i chi ffonio'r ysgol peth cyntaf fore dydd Llun i drefnu.

### **Cofiwch y canlynol yn ystod y noson agored;**

- Peidiwch dod i'r campws os oes gennych unrhyw symptomau coronafeirws – dewiswch yr opsiwn galwad ffôn
- Cofiwch gadw pellter diogel rhyngoch chi, rhieni / gwarcheidwaid arall a'r staff - mi fydd y byrddau wedi eu gosod er mwyn sicrhau diogelwch pawb
- Cofiwch gyrraedd ar amser a gadael y campws yn syth – gofynnir yn garedig i chi beidio dod â'ch plant gyda chi
- Parchwch amserlen y noson fel bod modd i bawb dderbyn yr amser priodol gyda'r staff
- Mi fydd staff cynorthwyol yr ysgol o gwmpas y campws er mwyn eich cyfeirio at y dosbarth cywir
- Gofynnir i chi wisgo mwgwd mewn ardaloedd prysur ac wrth siarad gyda'r staff

**Clwb yr Urdd** - yn parhau ar nos Fercher, 3.30 – 4.30yp  
Ebrill 6ed – Bl 1, 3 a 4

**Sioe Mewn Cymeriad – Mari Jones** – mi fydd cyfle i ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2 i weld cyflwyniad o Mari Jones gan gwmni drama Mewn Cymeriad ar ddydd Iau, Ebrill 7fed. Mi fydd yr ysgol yn talu'r costau

**Gwyliau'r Pasg** – cofiwch fod yr ysgol yn cau ar gyfer gwyliau'r Pasg am 3.30 ar ddydd Iau, Ebrill 7fed. Mi fydd yr ysgol yn ail agor ar ddydd Llun, Ebrill 25ain.

**Eisteddfod yr Urdd** – yn dilyn yr Eisteddfodau Rhanbarth ac ymweliadau gan y beirniaid i'r ysgol mi fydd yr ysgol yn cynrychioli Ceredigion yn y cystadlaethau canlynol yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych;

**Dydd Llun, Mai 30ain** – cerddorfa a chân actol (cân actol fel arfer yn y nos)

**Dydd Mawrth, Mai 31ain** – côr, grŵp dawnsio amlgyfrwng a'r grŵp dawnsio creadigol.

**Dydd Mercher, Mehefin 1af** – dawnsio disgo unigol

Mae'n bosib i'r drefn newid - rhagor o fanylion i ddilyn o safbwynt amseroedd perfformio.

Gofynnir yn garedig i'r rhieni / gwarcheidwaid wneud trefniadau cludiant.

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

R C Williams,

Pennaeth,  
01/04/2022



## Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

**Open Evening** – please remember that there is an opportunity for you to discuss your child's educational and social development with the teacher on Monday, April 4th or Tuesday, April 5th. The procedure for making an appointment was circulated by email a fortnight ago, however the link has now expired. If you have not yet made an appointment and would like to do so, please phone the school first thing on Monday morning.

**During parent's evening please remember;**

- Do not enter the campus if you have any symptoms of coronavirus - choose the phone call option instead
- Keep a safe distance between yourself, other parents / guardians and the staff - the tables will be set up to ensure everyone's safety
- Remember to arrive on time and leave the campus immediately - you are kindly requested not to bring your children with you
- Respect the evening's schedule so that everyone can have the appropriate time with staff
- School support staff will be on campus to direct you to the correct class
- You will be asked to wear a mask in busy areas and when speaking to staff.

**Urdd Club** - continues on Wednesdays, 3.30 - 4.30pm  
April 6th - Years 1, 3 and 4

**Mewn Cymeriad performance - Mari Jones** - Year 1 and 2 pupils will have an opportunity to see a presentation of Mari Jones by Mewn Cymeriad drama company on Thursday, April 7th. The school will pay the costs.

**Easter Holidays** – please remember that the school closes for the Easter holidays at 3.30 on Thursday, April 7th. The school will re-open on Monday, April 25th.

**Urdd Eisteddfod** - following the Regional Eisteddfodau and judges' visits the school will represent Ceredigion in the following competitions at the Denbighshire National Urdd Eisteddfod;

**Monday, May 30th** – orchestra and action song (action song usually in the evening)

**Tuesday, May 31st** - choir, multimedia dance group and the creative dance group.

**Wednesday, June 1st** – individual disco dancing

It is possible that the timetable could change - further details to follow regarding performance times. We kindly ask parents / guardians to make transport arrangements.

**If you have any worries regarding your child's wellbeing or education, then please contact me immediately.**

**R C Williams,**

**Headteacher,  
01/04/2022**